Carbon Is

Ychydig Iawn o Wastraff

Campysau Bioamrywiaeth

Teithio Cynaliadwy

Caffael Cynaliadwy

Iechyd a Lles

Diwylliant a Chymuned

Gwybodaeth a Sgiliau

# Labordai Cynaliadwy

Swansea University
Prifysgol Abertawe
Sustainability
Cynaliadwyedd

## Sut gallaf reoli fy nghemegau a'm samplau yn fwy effeithlon yn y labordy?



Mae'r ffordd yr ydym yn rheoli storio samplau a chemegau yn y labordy yn gallu effeithio'n enfawr ar effeithlonrwydd y gofod. Hefyd, mae'n gallu effeithio ar ein hef-faith amgylcheddol drwy ddef-nyddio mwy o nwyddau traul a deunyddiau peryglus, a thrwy greu mwy o wastraff.

Mae pethau syml y gallwch eu gwneud i wella effeithlonrwydd o ran samplau a'ch cemegau yn cynnwys:

- Sicrhau bod yr holl gemegau a samplau'n cael eu labelu â'r perchennog, enw, dyddiad a'r perygl (os bydd yn berthnasol)
- Sicrhau bod cemegau, samplau a deunyddiau yn y gofod yn cael eu def-nyddio'n weithredol
- Rhannu cemegau a deunyddiau, pan fydd yn bosibl, er mwyn prynu llai a chael llai o wastraff posibl
- Defnyddio 12 egwyddor Cemeg Werdd er mwyn i'ch gwaith effeithio llai ar yr amgylchedd e.e. dewis deunyddiau llai peryglus
- Gofyn i'ch cyflenwr pa ddewisiadau eraill llai peryglus y gall eu hargymell
- Cynnwys rheoli samplau a chemegau yn y sesiynau sefydlu yn y labordy
- Cael llechres ar gyfer eich grwp/labordy

Cysylltwch â'ch Swyddog Amgylchedd am ragor o wybodaeth::

- sustainability@abertawe.ac.uk

SwanseaSWell

swansea.ac.uk/sustainability

sustainability@swansea.ac.uk